PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 8 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Henshaw, Parkhill, Robson, Sattar a/ac Stubbs |

30 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorydd Gavin Hill-John.

31 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

32 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

33 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD – I'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod er mwyn ystyried Atodiadau'r eitemau canlynol am fod gwybodaeth wedi ei eithrio ynddynt fel y nodwyd ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.

34 : SICRHAU BUDDSODDIAD YN ADEILADAU TREFTADAETH Y MAE'R CYNGOR YN BERCHEN ARNYNT

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon yw galluogi craffu cyn penderfyniad ar yr adroddiad i'r Cabinet ar sicrhau dyfodol adeiladau treftadaeth Caerdydd. Diben y craffu oedd archwilio yr argymhellion i'r Cabinet, y rhagdybiaethau ariannol yn yr adroddiad, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlen a'r camau nesaf ar gyfer sicrhau dyfodol ein hadeiladau treftadaeth.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cyng. Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd.

***Cynigiodd y Cadeirydd wneud y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon yn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r pwyllgor benderfynu gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar hyn o bryd.***

PENDERFYNWYD: y byddai barn y Pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 35 : TIR YN RHODFA'R HARBWR

Dywedodd y Cadeirydd mai diben yr eitem hon oedd galluogi craffu cyn penderfyniad ar yr adroddiad i'r Cabinet ar gaffael safle strategol ym mae Caerdydd, a adwaenir fel Parc Britannia, a gwerthu rhan o'r tir hwn. Diben y craffu oedd archwilio yr argymhellion i'r Cabinet, y rhagdybiaethau ariannol yn yr adroddiad, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlen a'r camau nesaf ar gyfer caffael a gwerthu'r tir hwn.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd.

***Cynigiodd y Cadeirydd wneud y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon yn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r pwyllgor benderfynu gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar hyn o bryd.***

PENDERFYNWYD: y byddai barn y pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 36 : ARENA DAN DO AML-BWRPAS

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd galluogi craffu cyn penderfyniad ar yr adroddiad i'r Cabinet ar yr arena dan do aml-bwrpas. Diben y craffu oedd archwilio yr argymhellion i'r Cabinet, y rhagdybiaethau ariannol yn yr adroddiad, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, yr amserlen a'r camau nesaf ar gyfer adeiladu'r arena.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd.

***Cynigiodd y Cadeirydd wneud y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon yn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor benderfynu gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar hyn o bryd.***

PENDERFYNWYD: y byddai barn y Pwyllgor yn cael ei thrafod yn ystod adran 'y ffordd ymlaen' y cyfarfod ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 37 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd diweddariad ar ohebiaeth i'r Aelodau a dywedwyd wrthynt fod yr ohebiaeth yn gyfredol yng nghyfarfod Craffu mis Hydref, roedd disgwyl am ddim ond dau ymateb o'r cyfarfod hwnnw.

Rhoddwyd i'r Aelodau yr adroddiad drafft ar yr Ymchwiliad 'Safleoedd Arloesi a Gweithdai'r Cyngor' a dywedwyd wrthynt mai dyma oedd eu cyfle i roi gwybod am unrhyw newidiadau sydd eu hangen neu i gymeradwyo'r adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Cabinet. Roedd y Cadeirydd am ddiolch i Angela Holt, y Prif Swyddog Craffu am ei gwaith a'i chymorth gyda'r ymchwiliad a hefyd diolchodd i aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am eu cyfraniad. Cytunodd y Pwyllgor i'r adroddiad drafft gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl cwblhau Rhagair y Cadeirydd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Chwefror 2019 yn canolbwyntio ar ystyried y Cynllun Corfforaethol a Chynigion Cyllidebol ar gyfer 2019/20. Byddai holl Aelodau'r Cyngor yn cael cyfle i gael brîff ar y materion hyn. Gofynnodd y Swyddog Craffu i Aelodau'r Pwyllgor a oedd angen unrhyw hyfforddiant wedi'i dargedu arnynt ar graffu'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynigion Cyllidebol. Nododd rhai Aelodau y byddent yn croesawu hyfforddiant gloywi a gofynnodd eraill i'r sleidiau hyfforddiant o'r llynedd gael eu cylchredeg. Teimlodd yr Aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael hyfforddiant penodol ar y ffordd orau o graffu ar gynigion y rhaglen gyfalaf a chostau ariannu cyfalaf.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y cynllun gwaith a dywedwyd wrthynt y câi adroddiad ar y rhaglen waith ei ddwyn gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2018.

## 38 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni ddaeth dim i law.

## 39 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

## 40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cyfarfod Craffu ar y Cyd gyda'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ar 19 Tachwedd am 5.30pm yn YP4, Neuadd y Sir.

Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar 6 Rhagfyr 2018 am 4.30pm yn YP4, Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 pm